

Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

Adroddiad Ymchwil

Tystiolaeth a Data i lywio
Penderfyniadau ar gyfer 2026 i
2027

cdffc.llyw.cymru
cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Tystiolaeth a Data i lywio Penderfyniadau ar gyfer 2026 i 2027

Diben

- o Mae'r ddogfen hon yn darparu data ac ymchwil i lywio penderfyniadau'r Comisiwn ar gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 i 2027.
- o Wrth wneud ei benderfyniadau, dylai'r Comisiwn sicrhau bod y canlyniadau'n fforddiadwy ac yn dderbyniol i awdurdodau a'r cyhoedd. Mae'r canlynol yn gwestiynau allweddol:
 - A ddylai'r Comisiwn uwchraddio lwfansau ai peidio?
 - Os penderfynir uwchraddio'r lwfansau, a ddylid defnyddio ASHE, neu gymharydd amgen?

Cyfraddau Cydnabyddiaeth Ariannol Presennol a Drafft

- o Mae Atodiad 1 yn cynnwys penderfyniadau blaenorol ar gydnabyddiaeth ariannol a chynigion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 i 2027 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol.
- o Yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yw'r ffynhonnell ddata a ddefnyddir gan y Comisiwn ar hyn o bryd i uwchraddio lwfansau. Mae ffynonellau data eraill posibl wedi'u cynnwys yn yr Atodiad fel meincnodau. Fodd bynnag, y llynedd, cytunodd y Panel i ddileu cyflogau RPI, Pwynt 20 y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ac AS a ddefnyddiwyd yn flaenorol, ond cytunodd hefyd i ychwanegu taliadau i aelodau etholedig llywodraeth leol yr Alban fel cymhariaeth ychwanegol.

Tystiolaeth Ategol

- o Mae'r adran hon yn ystyried ystod o ffynonellau tystiolaeth a all lywio penderfyniadau'r Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 i 2027, sef:
 - ASHE
 - Codiadau Cyflog y Sector Cyhoeddus / Preifat
 - Chwyddiant
 - Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr yn yr Alban
 - Llwyth Gwaith Cynghorwyr
 - Ymwybyddiaeth ac Agweddau Cynghorwyr mewn perthynas â Chydnabyddiaeth Ariannol
 - Cyfraniad at Nodau Polisi (Amrywiaeth ac Iechyd Democratiaidd)

Tabl crynhoi mynegeion – Cynnydd canrannol o flwyddyn i flwyddyn

	2023	2024	2025
ASHE (un flynedd y tu ôl i fynegeion eraill)	5.4	5.3	6.4
CPIH	6.4	3.1	4.0
CPI	6.8	2.2	3.4
Gwariant prif gyngor	7.6	5.4	6.1
Cyflogau'r sector cyhoeddus	9.6	6.0	5.5

ASHE


- o Mae ystadegau ASHE yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac fe'u dynodir yn Ystadegau Gwladol. Er mwyn i gynnyrch ystadegol gael ei ddynodi'n Ystadegyn Gwladol, mae'n rhaid iddo gael ei asesu yn erbyn y Cod Ymarfer Ystadegau ac mae'n rhaid barnu ei fod yn cydymffurfio. Mae ystadegau gwladol yr asesir eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cod (hynny yw, sy'n bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd, a gwerth) yn cael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.
- o Mae ASHE yn darparu gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion ac oriau a dalwyd ar gyfer cyflogaion ym mhob diwydiant a galwedigaeth ledled y Deyrnas Unedig.
- o Er y gellir dadansoddi dosbarthiad enillion yn y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu, ystyrir bod ASHE yn ffynhonnell fwy cywir o wybodaeth gan fod y wybodaeth yn cael ei darparu gan gyflogwyr yn hytrach na chael ei hunanadrodd gan gyflogaion.
- o Mae ASHE yn elwa o sampl fawr sydd, ynghyd â'r amrywiaeth o nodweddion unigol a daearyddol a gesglir hefyd, yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad manylach na ffynonellau eraill o ddata enillion.
- o Un o brif gyfyngiadau'r data yw nad yw'n cynnwys pobl hunangyflogedig.
- o ASHE yw'r brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir ar gyfer sawl amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyflog ar draws yr ONS a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y dangosydd cenedlaethol ar y bwlch cyflog rhywedd).¹

¹ [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024 | LLYW.CYMRU](#)

Tueddiadau Cyflogau'r Sector Cyhoeddus/Preifat

- o Y twf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector preifat oedd 5.6% o fis Ionawr i fis Mawrth 2025 (Ffigur 4). Roedd hyn yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis, pan oedd yn 5.9%, a'r tro diwethaf roedd yn is na 5.6% oedd o fis Gorffennaf i fis Medi 2024, pan roedd yn 5.1%.

Ffigur 1. Twf blynyddol enillion wythnosol cyfartalog ar gyfer cyfanswm cyflog (gan gynnwys cartrefi) a chyflog rheolaidd yn ôl y sector cyhoeddus a'r sector preifat ym Mhrydain Fawr, wedi'i addasu'n dymhorol. Ion-Maw 2001 i Ion-Maw 2025.



Ffynhonnell: Dadansoddiad yr ONS o'r Arolwg Cyflogau Misol Source: ONS Analysis of Monthly Wages and Salaries Survey, 2025.²

- o Y twf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector cyhoeddus oedd 5.5%, a oedd yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis, pan roedd yn 5.7%. Y tro diwethaf yr oedd twf rheolaidd ar gyfer y sector cyhoeddus yn is na 5.5% oedd o fis Tachwedd 2024 i fis Ionawr 2025, pan roedd yn 5.2%.
- o Y twf cyfanswm enillion cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector preifat oedd 5.4% o fis Ionawr i fis Mawrth 2025. Roedd hyn yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis, pan roedd yn 5.7%.
- o Ar gyfer y sector cyhoeddus, roedd y twf cyfanswm enillion cyfartalog blynyddol yn 5.4% hefyd. Roedd hyn yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis, pan roedd yn 5.8%.

Chwyddiant

- o Pwyntiau allweddol yn ymwneud â chwyddiant:

² [ONS. 2025. Enillion wythnosol cyfartalog ym Mhrydain Fawr: Mai 2025.](#)

- o Cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n cynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) 4.1 y cant yn ystod y 12 mis i fis Ebrill 2025, i fyny o 3.4 y cant ym mis Mawrth 2025.³
- o Yn fisol, cynyddodd y CPIH 1.2% ym mis Ebrill 2025, o gymharu â chynnydd 0.5% ym mis Ebrill 2024.
- o Cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) 3.5% yn ystod y 12 mis i fis Ebrill 2025, i fyny o 2.6% yn ystod y 12 mis i fis Mawrth.
- o Yn fisol, cynyddodd y CPI 1.2% ym mis Ebrill 2025, o gymharu â chynnydd 0.3% ym mis Ebrill 2024.


Ffigur 2. Cyfraddau chwyddiant blyneddol y CPIH, elfen costau tai perchen-feddianwyr (OOH) a'r CPI, y Deyrnas Unedig, mis Mehefin 2014 i fis Ebrill 2025



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Chwyddiant prisiau defnyddwyr, 2025.

³ [ONS. 2025. Chwyddiant prisiau defnyddwyr, 2025.](#)

Ffigur 3. Newid i enillion wythnosol ar gyfartaledd a chwyddiant yn y Deyrnas Unedig o flwyddyn i flwyddyn



Ffynhonnell: Dadansoddiad Senedd Cymru o ddata'r ONS, 2024.⁴

- o Nid yw Senedd Cymru wedi cynhyrchu dadansoddiad wedi'i ddiweddararu hyd yma yn 2025.
- o Mae'r cynnydd mewn enillion wythnosol ar gyfartaledd o flwyddyn i flwyddyn ledled y Deyrnas Unedig yn uwch na chyfradd chwyddiant. Cyhoeddir data enillion ar gyfer Cymru yn flynyddol yn ASHE; fodd bynnag, nid yw'r gyfradd chwyddiant ar gael ar lefel Cymru.

Cydnabyddiaeth Ariannol Cyngorwyr yn yr Alban

- o Llywodraeth yr Alban sy'n pennu cyflog sylfaenol cyngorwyr yn yr Alban, ac ni ellir ei amrywio gan gynghorau unigol. Mae Rheoliadau Deddf Llywodraethu Lleol (Yr Alban) 2004 (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2007 yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer talu cyflog i gynghorwyr 2007.⁵
- o Ers mis Mai 2017, mae cyflogau cyngorwyr wedi cael eu cysylltu â chyflogau gweithwyr y sector cyhoeddus yn yr Alban. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ASHE.⁶
- o Y cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer cyngorwyr yn yr Alban o 1 Ebrill 2024 yw £25,982 (yn unol â pholisi Llywodraeth yr Alban ar rolau, ymddygiad a

⁴ [Senedd Cymru. 2024. Diweddariad o'r farchnad lafur ym mis Gorffennaf 2024.](#)

⁵ [Rheoliadau Deddf Llywodraethu Lleol \(Yr Alban\) 2004 \(Cydnabyddiaeth Ariannol\) 2007](#)

⁶ [Pobl mewn gwaith – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

chyflog cynghorwyr, ⁷ fel yr amlinellir yn Rheoliadau Diwygio Deddf Llywodraethu Lleol (Yr Alban) 2004 (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2025).⁸

- Mae'r Rheoliadau'n trefnu cynghorau mewn bandiau gan ddefnyddio nifer o ffactorau, gan gynnwys maint cyllideb y cyngor. Mae'r Rheoliadau hefyd yn amlinellu pedair gradd cynghorydd at ddibenion talu cydnabyddiaeth ariannol.
 - a. Arweinydd y Cyngor.
 - b. Pennaeth Dinesig.
 - c. Uwch Gynghorwyr; a
 - ch. Chynghorwyr.
- Ni all Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Dinesig fod yr un unigolyn, at ddibenion talu cydnabyddiaeth ariannol.
- Amlinellir y cyfraddau ar gyfer 2024 i 2025 yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1. Cyfraddau Cyflog Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Dinesig ar gyfer yr Alban, 2024-25

Band y Cyngor	Cyflog yr Arweinydd	Cyflog y Pennaeth Dinesig
B	£50,063	£37,548
C	£60,791	£45,594
D	£71,519	£53,640

Nid oes unrhyw gynghorau wedi'u dynodi'n fand A ar hyn o bryd

Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban – Rolau, ymddygiad a chyflog cynghorwyr.

- Nid yw'r Rheoliadau'n nodi'r cyflog ar gyfer uwch gynghorwyr. Yn hytrach, maen nhw'n gosod yr uchafswm (75 y cant o gyflog Arweinydd y Cyngor) a'r lleiafswm (cyflog sylfaenol cynghorydd) y gellir ei dalu i uwch gynghorydd.
- Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r uchafswm y gall pob cyngor ei wario ar gyflogau uwch gynghorwyr. Yna, mater i gynghorau unigol yw penderfynu faint i'w dalu i'w huwch gynghorwyr, y gellid talu symiau gwahanol iddynt.

Llwyth gwaith cynghorwyr

- Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf o adroddiad 2024 y Comisiwn, Gwaith ymchwil ar lwyth gwaith Cynghorwyr Sir yng Nghymru⁹:


⁷ Rolau, ymddygiad a chyflog cynghorwyr – Llywodraeth leol – gov.scot (www.gov.scot)

⁸ [Rheoliadau Diwygio Deddf Llywodraethu Lleol \(Yr Alban\) 2004 \(Cydnabyddiaeth Ariannol\) 2025 \(legislation.gov.uk\)](#)

⁹ [Gwaith ymchwil ar lwyth gwaith Cynghorwyr Sir yng Nghymru | CDFfC Mehefin 2024](#)

- Dangosodd ein harolwg ar-lein fod cynghorwyr yn treulio 28 awr yr wythnos, ar gyfartaledd, ar waith sy'n gysylltiedig â'u rôl fel aelod etholedig. Roedd yr atebion yn amrywio'n fawr o 8 awr i 60 awr.


Ffigur 4. Nifer yr oriau a dreulir ar waith sy'n gysylltiedig â rôl Cynghorydd Sir.



- Pan ystyriwn nifer gyfartalog yr oriau a weithir gan gynghorwyr y mae hyd eu profiad yn amrywio, gellir gweld bod y rhai sydd â'r profiad mwyaf yn gweithio'r oriau hiraf. Mae'n debygol bod hyn oherwydd eu bod yn dal rolau uwch ychwanegol, oherwydd eu bod yn fwy amlwg ymhlith preswylwyr ac, o bosibl, oherwydd bod y cynghorwyr hiraf eu gwasanaeth yn fwy tebygol o fod wedi cyrraedd oedran ymdddeol ac felly'n gallu treulio amser ychwanegol ar y rôl.
- Roedd yn ymddangos bod lefel amddifadedd yn effeithio ar nifer yr oriau a weithiwyd hefyd, wrth i'r rhai mewn ardaloedd amddifadedd uchel weithio dwy awr yn fwy, ar gyfartaledd, na'r rhai mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod yn llai amddifad (29.7 awr o gymharu â 27.1 awr).
- Mae'r data hefyd yn awgrymu bod cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau bach (sydd â phoblogaeth o lai na 4,000) yn gweithio oriau hirach na'r rhai mewn wardiau canolig neu fwy (28.8 awr o gymharu â 26.1 a 27.3 awr, yn ôl eu trefn). Fe allai hyn fod yn gysylltiedig â ffactorau eraill, gan gynnwys y ffaith bod wardiau bach yn fwy tebygol o fod yn wardiau gwledig ac un cynghorydd, felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus wrth amlygu maint y boblogaeth fel ffactor sy'n achosi llwyth gwaith uwch.
- Ychydig iawn o amrywioldeb oedd o ran yr oriau a weithir ar gyfartaledd yn ôl ffactorau eraill, gan gynnwys pa mor wledig yw'r ward, presenoldeb Cyngor Tref/Cymuned gweithredol, amrywiadau yn y boblogaeth, p'un a oedd yr aelod etholedig yn dal rôl yn y cabinet ai peidio, na nifer yr aelodau

mewn ward. Nid yw'r gwahaniaethau a ddangosir ar draws y ffactorau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 5. Yr oriau a weithir ar gyfartaledd yn ôl newidynnau allweddol



Ymwybyddiaeth ac Agweddau Cynghorwyr mewn perthynas â Chydnabyddiaeth Ariannol

- o Mae Arolwg o Gynghorwyr 2022 Llywodraeth Cymru yn awgrymu:¹⁰
 - Dim ond tua hanner y cynghorwyr cymuned a thref oedd yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i gael tâl sylfaenol. Nid oedd tua thri chwarter wedi hawlio eu taliad sylfaenol ac uwch yn llawn. Roedd mwyafrif y prif gynghorwyr yn ymwybodol y gallent hawlio cyflog sylfaenol ac roeddent wedi ei hawlio'n llawn.
 - At ei gilydd, nid oedd yr ymatebwyr yn credu y dylai cynghorwyr gael tâl am eu gwaith. Roedd nifer lai yn amddiffyn y system bresennol.
 - Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr yn credu na ddylai cynghorwyr gael tâl am eu gwaith am resymau mwy sylfaenol, a phwysleisiodd cynghorwyr cymuned yn arbennig fod hynny'n anghydnaws â natur eu rôl. Roedd y cynghorwyr hyn yn dadlau'n gyffredin mai rôl wirfoddol ydoedd ac na ddylai cynghorwyr gael eu talu am 'faint' gwasanaethu eu cymuned.
 - Ar draws yr holl categorïau cynghorwyr, credwyd yn gryf y byddai'n well petai unrhyw arian a oedd ar gael ar gyfer lwfansau'n cael ei wario neu ei fuddsoddi mewn cymunedau lleol.
 - Er gwaethaf y safbwyntiau hyn, roedd nifer fach o gynghorwyr cymuned yn amddiffyn y system bresennol o gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr gan ddadlau bod rôl cyngorydd cymuned, yn arbennig, wedi newid bellach o swydd ran-amser, ddi-dâl draddodiadol i'r hyn yr oedden nhw'n ei ystyried yn rôl 'wedi'i phroffesiynoli' sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a chyfrifoldebau.
 - Mae talu lwfansau a threuliau'n parhau i fod yn asgwrn cynnen ymhlith cynghorwyr a'r cyhoedd.
 - Mae gwybodaeth am nifer y cynghorwyr sy'n penderfynu ildio eu cydnabyddiaeth ariannol i gyd, neu ran ohoni, yn rhoi ychydig o gyd-destun ychwanegol am agweddau cynghorwyr at gydnabyddiaeth ariannol. Mae'r Comisiwn yn caniatáu i unigolyn wrthod derbyn rhan o'r taliadau, neu'r holl daliadau, os yw'n dymuno. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig ac mae'n fater i'r unigolyn.

Wedi Derbynn ac Optio Allan o Dderbyn Taliad 'Lwfans £156'

- o O ran cynghorau tref a chymuned, mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n gyfwerth â £3 yr wythnos) tuag at y treuliau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer, a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. Adwaenir hyn yn gyffredinol fel y "taliad £156".
- o Mae'r tabl isod yn dangos faint o Gynghorwyr a dderbyniodd y taliad £150 (2019 i 2022, y taliad £156 (2023 ymlaen)) a faint a ddewisodd wrthod ei

¹⁰ [Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: arolwg o gynghorwyr \(crynodeb\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

dderbyn.

- Sylwer: Mae rhai ffurflenni'n dangos 'dim datganiad niferoedd' ac nid ydynt yn dangos faint o Gynghorwyr nad oeddent wedi derbyn y taliad £150 / £156. Ymwelodd yr Ysgrifenyddiaeth â phob gwefan i nodi faint o Gynghorwyr oedd yn bresennol ar y Cyngor.

Tabl 2. Newidiadau blynyddol i'r nifer sy'n derbyn y lwfans *£150 a **£156

Blwyddyn	Wedi derbyn y lwfans £150 / £156	Newid o'r flwyddyn flaenorol	Wedi optio allan o'r lwfans £150 / £156	Newid o'r flwyddyn flaenorol
*2019 – 2020	921	-	3,438	-
*2020 – 2021	1,098	+177	4,039	+601
*2021 – 2022	1,249	+151	3,830	-209
*2022 - 2023	1,703	+454	3,862	+32
**2023 - 2024	1,975	+272	3,415	-447
**2024 - 2025	1,783	-192	2,385	-1,030

*Pennwyd lwfans £150 o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2023

**Lwfans £156 o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024

Ffynhonnell: Dadansoddi ffurflenni gan gynghorau.

Mae'r data sy'n ymwneud â chynghorau sir a bwrdeistref sirol fel a ganlyn:

Tabl 3. Nifer y cynghorwyr a ddewisodd ildio eu cyflog yn llwyr neu'n rhannol

Blwyddyn Ariannol	Y cyfanswm a ildiodd eu cyflog	Cyflog Uwch	Nifer yr Awdurdodau	Newid o'r flwyddyn flaenorol
2016 – 2017	186	71	8	-
2017 – 2018	117	86	7	- 69
2018 – 2019	72	23	11	- 45
2019 – 2020	112	41	13	+ 40
2020 – 2021	111	37	12	-1
2021 – 2022	36	14	10	-75
2022 - 2023	28	15	7	-8
2023 - 2024	21	12	6	-7
2024 – 2025	16	11	4	-5

Ffynhonnell: Dadansoddi ffurflenni gan gynghorau.

Cyfraniad at Nodau Polisi

Amrywiaeth

- o Ar ôl adolygu'r dystiolaeth (gan gynnwys arolygon ymadael a rhesymau cynghorwyr), daeth Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd i'r casgliad nad oedd tystiolaeth uniongyrchol i awgrymu bod cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol yn effeithio ar amrywiaeth. Nid yw hyn yn golygu'n bendant nad yw cydnabyddiaeth ariannol yn fater yn y maes hwn; yn hytrach, nid oedd y Pwyllgor yn gallu casglu ei fod yn ffactor yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol.
- o Awgrymodd y Pwyllgor y gallai cyfraddau fod yn rhy isel yn gyffredinol i ddenu cronfa gref o ymgeiswyr i rôl cynghorydd, a allai effeithio ar amrywiaeth ymgeiswyr:
- o Mae canfyddiadau adroddiad o 2019 gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru yn awgrymu, o gymharu â chyflogaeth draddodiadol, fod cyflog blynyddol sylfaenol prif gynghorwyr yng Nghymru yn rhy isel i ddenu pobl ifanc neu annog mwy o amrywiaeth.¹¹
- o Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud cysylltiad rhwng yr angen i ddenu cynghorwyr iau a mater cydnabyddiaeth ariannol. Rhoddir rhai dyfyniadau perthnasol gan gynghorwyr sy'n cyfleu'r negeseuon hyn isod:

'Pwysleisiodd prif gynghorwyr a chynghorwyr cymuned a thref, a'r rhai sy'n cyflawni dwy rôl, yr angen i wella'r cydbwysedd oedran, rhywedd, a chymdeithasol yn y boblogaeth gynghorwyr, fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos.....

Fodd bynnag, wrth wneud galwad o'r fath, amlygwyd rhai o'r rhwystrau sy'n atal darpar ymgeiswyr rhag sefyll, gan gynnwys gofynion y rôl, y math o waith sy'n gysylltiedig ac agweddau ariannol y rôl.'

Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol – Cynghorau Tref a Chymuned

- o Yn flaenorol, mae'r Panel wedi ystyried effaith cydnabyddiaeth ariannol ar amrywiaeth mewn perthynas â chymorth i gynghorwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu ac anghenion cymorth personol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried sut mae'r taliadau hyn yn cael eu cyhoeddi, yn dilyn tystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan y Panel fod cyhoeddi'r taliadau hyn yn dod yn fater gwleidyddol mewn rhai achosion, i'r fath raddau sy'n atal unigolion rhag eu hawlio. Mae'r tablau canlynol yn rhoi data am y taliadau sy'n cael eu hawlio.

¹¹ [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru \(2019\)](#)

Tabl 4. Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol – ffigurau cymharol o'r wyth mlynedd diwethaf – cynghorau sir a bwrdeistref sirol

Blwyddyn Ariannol	Cyfanswm	Nifer yr Awdurdodau sy'n hawlio	Cynnydd neu ostyngiad
2016 – 2017	£13,849.42*	4	-
2017 – 2018	£15,289.00	9	+£1,439.58
2018 – 2019	£13,231.00	12	-£2,058.00
2019 – 2020	£13,978.64	7	+£747.64
2020 – 2021	£8,054.35	5	-£5,924.29
2021 – 2022	£6,095.09	3	-£1,959.26
2022 - 2023	£7,475.39	6	+£1,380.30
2023 - 2024	£36,876.63	5	+£29,401.24
2024 - 2025	£28,130.52	5	-£8,746.11

2022-2023 - *Datganodd un awdurdod (Conwy) fod un Aelod wedi hawlio ad-daliad am gostau gofal, ond ni roddwyd cyfanswm ar y ffurflen.

2024-2025 Nid yw tri awdurdod wedi cyhoeddi eu datganiadau ar gyfer eleni.

Ffynhonnell: Dadansoddi ffurflenni gan gynghorau.

- Mae'r cynghorau a restrir isod wedi cyhoeddi taliadau (fel cyfanswm) ar gyfer y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.

Tabl 5. Cyfraniadau cynghorau tref a chymuned unigol tuag at gostau gofal a chymorth personol – blwyddyn ariannol 2024- 2025

Cyngor	Swm	Grŵp
Cyngor Tref Llanfairfechan	£336.85	4

- *Ffynhonnell: Dadansoddi ffurflenni gan gynghorau.*

Mae'r rhifau hyn yn fach o gymharu â chyfanswm nifer y cynghorwyr (1,234 o gynghorwyr sir a bwrdeistref sirol ac oddeutu 8,000 o gynghorwyr tref a chymuned) ac yn ganran fach o'r gwariant blyneddol ar gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr a chyfanswm gwariant refeniw cynghorau.¹²

Iechyd democrataidd

- Paratowyd y data canlynol gan y Comisiwn, ac fe'i casglwyd o awdurdodau lleol. Mae'r data heb ei ddilysu ond, gan fod y ffigurau'n fanwl iawn, mae'n

¹² IRP (24) 426 Datganiadau Taliadau i Gynghorau Cymuned a Thref.

debygol bod y ffin cyfeiliornad yn fach.

- Rhoddir trosolwg o ganlyniadau cynghorau tref a chymuned yn etholiadau lleol mis Mai 2022 isod:

Tabl 6. Seddau cyngor cymuned yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022, yn ôl math

Math o Sedd	2017		2018	
	Cyfanswm (%)	Nifer	Cyfanswm (%)	Nifer
Etholedig – Diwrthwynebiad	64	5,075	62	4,857
Etholedig – Cystadleuaeth	19	1,531	22	1,770
Heb ei llenwi	17	1,348	16	1,256
Cyfanswm	100	7,954	100	7,883

- Er mwyn i gyngor cymuned ddatgan ei fod yn gymwys i arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol, un o'r amodau y mae'n rhaid iddo ei fodloni yw bod o leiaf ddwy ran o dair o'r seddau wedi'u hethol (boed hynny gyda chystadleuaeth neu'n ddiwrthwynebiad). Yn 2022, roedd tua 70 y cant o gynghorau cymuned yn bodloni'r amod hwn. Yn 2017, byddai tua 85 y cant wedi bodloni'r amod hwn.
- Roedd tua 30 o gynghorau cymuned (4 y cant) *heb gworwm* yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Mae hyn yn golygu nad oeddent wedi llwyddo i ethol tri chynghorydd, neu lai na thraean o gyfanswm nifer yr aelodau – pa un bynnag sy'n fwy.
- Pleidleisiodd 38 y cant o bobl yn etholiadau llywodraeth leol 2022, o gymharu â 42 y cant yn 2017. Mae hyn yn awgrymu lefel isel o ymgysylltiad mewn cynghorau cymuned, yn ogystal â diddordeb isel mewn gwasanaethu arnynt.
- Ar 13 Ebrill 2022, cyhoeddodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru erthygl o'r enw: "*Canslo Etholiadau: Gwrthod pleidlais i fwy na 100,000 o bleidleiswyr Cymru*". Datganodd yr erthygl fod dadansoddiad newydd gan y Gymdeithas yn amcangyfrif na fyddai 106,920 o bleidleiswyr yng Nghymru yn cael llais ledled Cymru o ganlyniad i etholiadau diwrthwynebiad.
- Nododd yr erthygl y byddai o leiaf un etholiad diwrthwynebiad yn 9 o'r 22 o gynghorau sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru, ac y byddai 28 yn yr ardal gyngor yr effeithir arni waethaf, sef Gwynedd. Amcangyfrifodd y Gymdeithas y byddai 30,722 o bleidleiswyr yng Ngwynedd yn cael eu hamddifadu o ddewis o ganlyniad i ddiffyg cystadleuaeth.

- o O'r 9 awdurdod lleol a restrwyd yn yr erthygl fel rhai lle y byddai etholiad diwrthwynebiad, mae 4 yng Ngogledd Cymru:
 - Sir Ddinbych – 1 sedd ddiwrthwynebiad mewn 1 ward
 - Sir y Fflint – 2 sedd ddiwrthwynebiad ar draws 2 ward
 - Gwynedd – 28 o seddau diwrthwynebiad ar draws 27 o wardiau
 - Wrecsam – 8 sedd ddiwrthwynebiad ar draws 8 ward
- o Y 5 awdurdod lleol arall a restrwyd yn yr erthygl yw:
 - Sir Gaerfyrddin – 1 sedd ddiwrthwynebiad mewn 1 ward
 - Ceredigion – 5 sedd ddiwrthwynebiad ar draws 5 ward
 - Castell-nedd Port Talbot – 3 sedd ddiwrthwynebiad mewn 2 ward
 - Sir Benfro – 19 o seddau diwrthwynebiad mewn 19 ward
 - Powys – 7 sedd ddiwrthwynebiad mewn 7 ward
- o Roedd cyfanswm o 74 o seddau diwrthwynebiad ar draws 72 o wardiau yng Nghymru.

Fforddiadwyedd

- o Darperir y wybodaeth ganlynol i hwyluso trafodaethau'r Comisiwn ynglŷn â fforddiadwyedd.

Cyllid Awdurdodau Lleol

- o Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd am gyfanswm gwariant refeniw cynghorau sir a bwrdeistref sirol yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2024 i 2025. Yn 2024-25, cynyddodd cyfanswm y gwariant refeniw gan awdurdodau lleol Cymru 6.6% i £11.4 biliwn. Y gwariant refeniw y pen oedd £3,563 neu £197 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.¹³
- o Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd am ragolygon gwariant refeniw yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2025 i 2026. Cyfanswm y gwariant refeniw a gyllidebwyd, fel yr adroddwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2025-26, yw £11.6 biliwn, sef 6.1% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.¹⁴
- o Adroddodd cynghorau sir a bwrdeistref sirol am gynnydd 6.0% neu £578 miliwn i'w gwariant refeniw a gyllidebwyd, ac adroddodd yr heddlu am gynnydd 6.8%. Adroddodd awdurdodau tân am gynnydd 6.3% ac adroddodd awdurdodau parc cenedlaethol am gynnydd 6.3%.
- o Mae Gwynedd yn dangos y cynnydd sirol mwyaf mewn gwariant refeniw, sef 10.1 y cant, o ganlyniad i'w rôl fel awdurdod arweiniol ar gyfer grant mawr gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Mae Castell-nedd Port Talbot yn

¹³ [Refeniw a gwariant cyfalaf alldro awdurdodau lleol: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹⁴ [Cyllideb refeniw awdurdodau lleol a rhagolygon gwariant cyfalaf: Ebrill 2025 i Fawrth 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

dangos y cynnydd lleiaf, sef 0.6 y cant.

Ffigurau Setliad Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer 2025 i 2026

- o Cyhoeddwyd [ffigurau setliad terfynol ar gyfer 2025 i 2026](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Chyllid mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2025.¹⁵ Cadarnhawyd y rhain i Arweinwyr Cyngorau Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru mewn llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol ar yr un diwrnod.¹⁶
- o Cynyddodd cyllid craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2025 i 2026 4.5 y cant ar sail gyfatebol o gymharu â 2024 i 2025. Ni chafodd unrhyw awdurdod gynnydd islaw 3.8 y cant.
- o Bydd dyddiad cyhoeddi'r setliad awdurdod lleol nesaf yn dibynnu ar gyhoeddi cyllideb 2026 i 2027 Llywodraeth Cymru. Bydd cyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr yn golygu y bydd dyraniadau setliad llywodraeth leol dros dro yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr ac y bydd y dyraniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror / yn gynnwys ym mis Mawrth. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gyhoeddiadau eto ynglŷn â dyddiad cyllidebau drafft na therfynol Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl na fydd y gyllideb derfynol yn cael ei gosod tan ar ôl toriad y Nadolig.
- o Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad blaenorol y Panel o gyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd gan gynghorau yng Nghymru. Mae hyn yn ganran fach o wariant refeniw cyffredinol cynghorau o hyd.

Crynodeb

- o Mae'r ddogfen hon wedi darparu ystod o ddata, tystiolaeth, a ffactorau cyd-destunol i lywio proses benderfynu'r Comisiwn mewn perthynas â'i benderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 i 2027.

¹⁵ [Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2025-26 \(20 Chwefror 2025\) | LLYW.CYMRU](#)

¹⁶ [2025-26 - LGS - Llythyr](#)

Atodiad 1. Cynigion drafft blwyddyn ariannol 2026 i 2027 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol

Tabl 7. Lwfansau Arfaethedig 2026 i 2027 ar gyfer Aelodau Prif Gynghorau

Sefydliad	Rôl	Cyflog 2025 i 2026	Cyflog Drafft 2026 i 2027	Gwahaniaeth (£)	Gwahaniaeth (%)
Prif Gynghorau (Grŵp A)	Band 1 – Arweinydd	£74,141	£78,915	£4,774	6.44
	Band 1 – Dirprwy Arweinydd	£51,899	£55,241	£3,342	6.44
	Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet	£44,485	£47,349	£2,864	6.44
Prif Gynghorau (Grŵp B)	Band 1 – Arweinydd	£66,727	£71,024	£4,296	6.44
	Band 1 – Dirprwy Arweinydd	£46,709	£49,716	£3,007	6.44
	Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet	£40,036	£42,614	£2,578	6.44
Prif Gynghorau (Grŵp C)	Band 1 – Arweinydd	£63,020	£67,078	£4,058	6.44
	Band 1 – Dirprwy Arweinydd	£44,114	£46,954	£2,840	6.44
	Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet	£37,812	£40,247	£2,435	6.44
Prif Gynghorau (Pob Un)	Cyflog Sylfaenol – Cynghorydd	£19,771	£21,044	£1,273	6.44
	Band 3 – Cadeirydd Pwyllgor*	£29,657	£31,566	£1,910	6.44
	Band 3 – Pennaeth Dinesig	£29,657	£31,566	£1,910	6.44
	Band 3 – Swyddog Llywyddu*	£29,657	£31,566	£1,910	6.44

	Band 4 – Arweinydd yr Wrthblaid (Fwyaf)	£29,657	£31,566	£1,910	6.44
	Band 5 – Arweinydd yr Wrthblaid (Arall)*	£23,726	£25,253	£1,527	6.44
	Band 5 – Dirprwy Bennaeth Dinesig	£23,726	£25,253	£1,527	6.44
Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu	Cadeirydd	£9,889	£10,522	£633	6.40
	Aelod	£4,944	£5,261	£317	6.41

* Os caiff ei dalu. Mae'r penderfyniad i dalu'r rôl yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol.

Tabl 8. Lwfansau Arfaethedig 2026 i 2027 ar gyfer Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

Sefydliad	Rôl	Cyflog 2024 i 2025	Cyflog Drafft 2026 i 2027	Gwahaniaeth (£)	Gwahaniaeth (%)
Awdurdodau Parc Cenedlaethol	Cadeirydd	£15,462	£16,457	£995	6.44
	Dirprwy Gadeirydd	£9,531	£10,144	£614	6.44
	Cadeirydd Pwyllgor	£9,531	£10,144	£614	6.44
	Aelod	£5,576	£5,935	£359	6.44
Awdurdodau Tân ac Achub	Cadeirydd	£12,674	£13,490	£816	6.44
	Dirprwy Gadeirydd	£6,743	£7,177	£434	6.44
	Cadeirydd Pwyllgor	£6,743	£7,177	£434	6.44
	Aelod	£2,788	£2,968	£179	6.44

Cyfrifiadau Lwfans

Cyflog Sylfaenol Cynghorydd

- o Cyfrifir Cyflog Sylfaenol Cynghorydd fel a ganlyn ar hyn o bryd:

Cyflog Sylfaenol = Enillion Wythnosol Cyfartalog x Wythnosau Amcangyfrifedig a Weithir

